GŴYL GELFYDDAU WRECSAM

WRECSAM AC EWROP

1 MAI – 5 MEHEFIN 2010

www.wrecsam.gov.uk

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

WREXHAM ARTS FESTIVAL
GŴYL GELFYDDYDAU WRECSAM

Wrexham Arts Welsh 2010_2.indd 1 29/3/10 16:18:56

Croeso i Ŵyl Gelfyddydau Wrecsam

Unwaith eto, mae Cyngor Wrecsam wedi paratoi gŵyl sy'n llawn dop o ddigwyddiadau ar gyfer pob oedran a phob chwaeth. O'r celfyddydau gweledol hyd at gerddorfeydd a dawnsio hip hop, mae gan Ŵyl Gelfyddydau Wrecsam rywbeth i bawb.

Dewch ar ein rhestr bostio ni!
Os ydych chi am fod ar ein rhestr bostio ni i dderbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau celfyddydol yn y dyfodol, mae croeso i chi gysylltu â'r **Swyddog Marchnata, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR. Ffôn: 01978 297488. E-bost leisure@wrexham.gov.uk**

Dywedwch eich dweud!
Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu adborth ynglŷn â rhaglen yr Ŵyl Gelfyddydau neu am unrhyw ddigwyddiad yr ydych wedi bod iddo. Mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Marchnata.

Os oes arnoch chi angen y daflen hon ar ffurf arall, mae croeso i chi ffonio **01978 297488.**

Cofiwch ffonio i holi o flaen llaw efo'r lleoliad neu drefnwyr y digwyddiad yn uniongyrchol os ydych yn pryderu am faterion anabledd.

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

WREXHAM ARTS FESTIVAL
GŴYL GELFYDDYDAU WRECSAM

Y Celfyddydau Gweledol

Oriel Wrecsam

24 Ebrill -23 Mehefin
Rhagolwg 23 Ebrill 7-9pm
Oriel Wrecsam
Dim Byd Tebyg
Yn rhan o thema Ewropeaidd Gŵyl Gelfyddyd Wrecsam, mae Dim Byd Tebyg - Universal Unique, yn bwrw golwg ar ein perthynas gyda'n cymheiriaid trwy gyfrwng portreadau. Mae'n cynnwys delweddau pen ac ysgwyddau trawiadol yr arlunydd Antek Schultz, a aned yng Ngwlad Pwyl ond sy'n byw yn yr Almaen, wedi eu paentio gydag amrywiaeth eang o liwiau bywiog.

Dim Byd Tebyg
3 Mai & 7 Mehefin
Oriel Wrecsam
Ewro Jac
Dwy noson o weithdai blasu ar gyfer oedolion sydd wedi'u hysbrydoli gan yr arddangosfa, yn trafod materion cysylltiedig â gwaith portreadu a'r hyn sy'n gyffredin i wahanol ddiwylliannau Ewropeaidd. Codwch Raglen Ddysgu Oriel Wrecsam neu ffonio 01978 209093 am fwy o wybodaeth.

26 May
Neuadd Eglwys y Santes Fair, Y Waun 7.00pm
Mae Ysgol Gynradd Eglwysig Pentre yn cyflwyno "Wonderful Europe"
Arddangosfa o atgofion am Ewrop. Lluniaeth ysgafn ar werth. Mynediad am ddim

Cerddoriaeth

7 Mai
Neuadd William Aston, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam 7.30pm
Cyngerdd Agoriadol – 'Wrecsam ac Ewrop'
Cyflwynir gan Wasanaeth Cerddoriaeth Sir Wrecsam, yn cynnwys ensemblau cerddorol Sir Wrecsam, o'r Cynradd drwy'r Canolradd i'r Lefel Hŷn – gyda cherddoriaeth Ewropeaidd ar gyfer y Tannau, Corau, a bandiau Pres a Chwyth.
Tocynnau: £5.00 (Gostyngiadau £3.00) wrth y drws

8 Mai
Neuadd William Aston, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam 7.30pm
Cerddorfa Symffoni Wrecsam gyda Chantorion Sirenian
Arweinydd Laurence Perkins
Symffoni Rhif 9 gan Beethoven
Unawdwyr - Cecilia Smiga (soprano), Rebecca Afonwy-Jones (alto), John Pierce (tenor) ac Oliver Sammons (baswr)
Arweinydd - Mark Lansom
Côr – Y Cantorion Sirenian - arweinydd Jean Stanley-Jones
Bydd y Cantorion Sirenian yn canu dewis o ddarnau yn ystod yr hanner cyntaf.
Tocynnau: £8.00 (Gostyngiadau £6.00) gan y Ganolfan Groeso 01978 292015. Mae tocyn plentyn i'w gael am ddim gyda phob oedolyn sy'n talu'r pris llawn. Bydd yr oriel yn agored ond heb olygfa gyflawn.

8 Mai
Y Neuadd Goffa, 6.00 pm
Cyngerdd gan Monika Thomas
Y gantores, cyfansoddwraig caneuon a phianydd boblogaidd o Wlad Pwyl, gyda dewis o ganeuon Pwyleg a Saesneg, yn cynnwys rhai oddi ar ei chryno ddisg diweddaraf.
Tocynnau: £5.00 gan y Ganolfan Groeso 01978 292015 neu siopau Pwylaidd yn y dref.

12 Mai
Ysgol Maelor,
Llannerch Banna 7.30pm
Trio Classico – Cerddoriaeth Sbaen
Yn cynnwys Nancy Klass (soprano), Neil Smith (gitâr), Lydia Bryan (piano). Noson ysgafn o ganeuon a darnau offerynnol gan gyfansoddwyr o Sbaen, yn cynnwys Rodrigo, Albeniz, Granados a de Falla.
Tocynnau: £10.00 (Gostyngiadau ac aelodau Cymdeithas Gerddoriaeth Llannerch Banna - £8.00) gan y Ganolfan Groeso 01978 292015

13 Mai
Central Station, Wrecsam, 7.30pm
Faust
Mae'r clwb Don't Die Just Yet! Yn Wrecsam yn croesawu'r band roc chwedlonol o'r Almaen i'w lwyfan. Mae Faust, y band ddyfeisiodd 'Kraut Rock' yn flaenllaw yng ngherddoriaeth yr 20fed ganrif, gyda 'Can' a 'Kraftwerk'. Wnaethon nhw ail-ddyfeisio cerddoriaeth bop yn ffurf benodol Ewropeaidd ar gelfyddyd.
Tocynnau: £10.00 o flaen llaw o Swyddfa Docynnau Yale's Café Bar neu www.seetickets.com neu www.ticketline.co.uk

15 Mai
Eglwys St Chad, Holt 7.00pm
Dathlu Canmlwyddiant yr Organ – Cyngerdd o Gerddoriaeth Ewropeaidd
Yn cyflwyno'r organydd gwadd arbennig Martin Herchenroeder o'r Almaen, gyda Chantorion Rhos, Hannah Williams, soprano, a Chlochyddion St Chad
Tocynnau: £5.00 gan y Ganolfan Groeso 01978 292015

17 Mai
Eglwys Blwyf San Silyn, Wrecsam 12.30pm
Datganiad ar yr Organ
Martin Herchenroeder o Maerkischer Kreis yn yr Almaen, yr ardal sydd wedi ei gefeillio gyda Wrecsam. Cinio ar gael o hanner dydd ymlaen Mynediad am ddim

18 Mai
Y Lleng Brydeinig, Llai 8.30pm
Cyngerdd Jas Rhyngwladol
Gyda'r trwmpedwr gwobredig Enrico Tomasso o'r Eidal gyda Trefor Owen (gitâr), un o feibion Wrecsam Liam Byrne (sacs tenor), Andrzej Baranek o Wlad Pwyl (allweddellau), Zoltan Dekany o Hwngari (bâs dwbl), a Marek Dorcik: Slofacia (drymiau). Bu Enrico Tomasso, enillydd dosbarth y Trwmpedwr Gorau, Gwobrau Jas Prydain, yn chwarae am 12 o flynyddoedd

Wrexham Arts Welsh 2010_2.indd 4-5 29/3/10 16:19:00

gyda'r gerddorfa Pasadena Roof Orchestra, yna gyda Ray Gelato's Giants. Mae Enrico yn gweithio erbyn hyn gydag artistiaid mor amrywiol â Bryan Ferry, Claire Teal ac Acker Bilk. Wedi'i drefnu ar y cyd â Chymdeithas Jas Gogledd Cymru.
Tocynnau: £8.00 (Gostyngiadau ac aelodau CJGC - £7.00) gan y Ganolfan Groeso 01978 292015

5 Mehefin
Eglwys Blwyf San Silyn, Wrecsam 7.30pm
Cerddorfa Ffilharmonig y Cambrian
Dan arweiniad Robert Guy. Unawdwyr Nina Reddig ac Annette Walther o'r Almaen
Rhaglen:
Chabrier: Fete Polonnaise (Yr ŵyl Bwylaidd)
William Mathias: Hwyrgan ar gyfer cerddorfa fach
Bach: Concerto ar gyfer dau fiolín yn D leiaf
Beethoven: Symffoni Rhif 5
Tocynnau: £8.00 (Gostyngiadau £6.00, Plant o dan 16 £3.00) ar gael gan y Ganolfan Groeso 01978 292015

Llenyddiaeth

5 Mai
Llyfrgell Wrecsam 7.00pm
Discovering Europe on a Motorbike
Yn ei llyfr, Just Us Two, mae'r awdur Rosalie Marsh yn disgrifio'i theithiau hi a'i gŵr ar draws Ewrop ar fotorbeic Gold Wing. Roedd o eisiau beic bach i ffidlan efo fo, roedd ganddi hi wallt trwsiadus, roedd hi'n gwisgo sodlau uchel, ond roedd ganddi hi freuddwyd i'w gwireddu. Mae Rosie a Ned yn crwydro Ewrop, gan reidio ar draws mynyddoedd uchel ac i lawr i'r dyffrynnoedd, ar draws y Sierras llwm a diffaith, yn wynebu stormydd enbyd ym mynyddoedd Andorra ac yn berwi yng ngwres Yr Eidal. Roedd Just Us Two ar restr derfynol Gwobr Llyfr Taith Gorau yn USA Book News yn 2009. Dyma stori wir ar gyfer teithwyr a breuddwydwyr, stori ysbrydoledig am ddarganfod, antur a hwyl.
Tocynnau: £4.00 (Consesiynau £3) ar gael o Oriel Wrecsam (01978 292093)

12 Mai
Llyfrgell Wrecsam 7.00pm
Ewrop a'r Tu Hwnt
Gellid ystyried Bethan Gwanas fel fersiwn Cymru o Michael Palin! Ar ôl teithio ar draws ac ar hyd, dyma gyfle i'w chlywed yn adrodd rhai o'i phrofiadau teithio ar draws Ewrop a'r tu hwnt. Mae ei chwe llyfr taith yn cofnodi ei phrofiadau personol, yn amrywio o waith gwirfoddol yn Nigeria i'w hymweliadau â rhai o wledydd 'llai' Ewrop – Gwlad y Basg, Llydaw, Norwy – yn ei dull dihafal ei hun. Mae'n gyflwynydd dawnus ac ysbrydoledig ac mae ei hiwmor a'i straeon am ei hanturiaethau yn cael eu cyflwyno ar ei thraul ei hun yn aml iawn!
Tocynnau: £4.00 (Consesiynau £3) ar gael o Oriel Wrecsam (01978 292093)

Wrexham Arts Welsh 2010_2.indd 6-7 29/3/10 16:19:03

Dawns NEW DANCE

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

25 Mai

Theatr Stiwdio Coleg Iâl, Ffordd Parc y Llwyni, Wrecsam, LL12 7AA 7.30pm

Company Decalage - 'Dwy Sioe mewn Un o Gerddoriaeth a Dawns'

Cyflwynir gan NEW Dance ar y cyd ag Adran Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r sioe unigryw hon yn cynnwys Company Decalage, un o gwmni'au dawns mwyaf cyffrous ac addawol Ewrop gyda'u cyfuniad o hip hop, dawns gyfoes a byrfyfyr, ynghyd â pherfformiadau o gerddoriaeth fyw gan Jason Kalidas a Miguel Marin. Mae'n cynnwys hefyd cyflwyniad o ffilm a seiat holi ac ateb gyda'r Ffrancwr Mickael Marso Rivere, Cyfarwyddwr Celfyddydol a Dawnslunydd y Cwmni.

Tocynnau: £5.00, (Gostyngiadau £4.00) gan y Ganolfan Groeso 01978 292015

A Sadler's Wells Project

breakin' convention

AN INTERNATIONAL FESTIVAL OF HIP HOP DANCE THEATRE

I'r Plant

31 Mai & 2 Mehefin
Gwneud carnifal a gorymdaith fach

Gwneud carnifal a gorymdaith fach. Ar gyfer pawb! Gweithdy ymarferol llawn hwyl lle bydd plant, pobl ifanc ac oedolion yn dylunio a gwneud pethau gyda'i gilydd. Gwnewch wisgoedd cysylltiedig â'r themâu Ewropeaidd eleni. Bydd yr orymdaith yn ddull difyr o arddangos eich doniau creadigol trwy ganol y dref a bydd yn dechrau o Oriel Wrecsam. Dim ond hyn a hyn o leoedd, felly trefnwch yn gynnar rhag ofn i chi gael eich siomi!

31 Mai 10am-12pm neu 12.30-2.30pm **2 Mehefin** 10am-12pm neu 12.30-2.30pm £3.50 y sesiwn

Gorymdaith y Carnifal 2 Mehefin

2.30pm am ddim i bawb sy'n dod i weithdy'r carnifal

Dathlu John Parry

(Parri Ddall, 1710-1782)

Eglwys y Santes Fair, Rhiwabon
10 Mehefin 2010

Rhaglen y dydd, 10yb-4.30yp

Darlithwyr yn cynnwys
Ann Griffiths ar John Parry
Miles Wynn Cato ar William Parry
Oliver Fairclough ar Watkin Williams-Wynn

Cyngerdd, 7.30yh

Telynorion yn cynnwys
Robin Huw Bowen & Rhes Ganol
Angharad Evans & Ann Griffiths

Tocynnau: www.gwylgregynogfestival.org
01686 207100 & wrth y drws

Dyddiad i'ch dyddiadur

Wrexham Arts Welsh 2010_2.indd 8-9 29/3/10 16:19:09

Theatr y Stiwt

22 Mai
Theatr y Stiwt, Rhos 7.30yh
Mappa Mundi
Dangerous Liaisons
Dewch draw i fwynhau'r perfformiad yn ogystal â mymryn o fefus wedi'u gorchuddio â siocled a gwydraid o win pefriog neu sudd ffrwyth (un y pen).
Tocynnau: £12.50 and £14.50 ar www.stiwt.co.uk a'r Swyddfa Docynnau ar 01978 841300

29-30 Mawrth - 1 Mai
Theatr y Stiwt, Rhos 7.30yh
Theatr yr Ifanc -
Broadway ar Stryt Lydan
Tocynnau: £6 a £4

15 Mai
Theatr y Stiwt, Rhos 7.30yh
The Very Nice Production Company - Take The Mic 2
Tocynnau: £10 Hospis Tŷ'r Eos

19 - 20 Mai
Theatr y Stiwt, Rhos
Cyngerdd Ysgolion
19 Mai 1:30yp & 7.00yh
20 Mai 7.00yh
Tocynnau: 01978 841300

wrexham county borough council cyngor bwrdeistref sirol wrecsam

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rhoi grant i Theatr y Stiwt, Rhos

Entertainment and the Arts

Wrexham Symphony Orchestra
Sat 8 May 7.30pm **£10, £8, £6 conc.** TIC

Po' Girl | Wed 12 May 8.00pm
£10.00 TIC SEE GU Online GU Campus

The Magic of Motown - The Reach Out Tour 2010
Fri 21 May 8.00pm **£15, £13 conc.** TIC SEE GU Online GU Campus

Derek Acorah Live | Sat 22 May 8.00pm
£18.00 GU Online GU Campus

Bouncers and Shakers by John Godber
Tues 25, Wed 26, Thurs 27 May 7.30pm (1.30pm matinee Tues/Thurs)
Tickets: £4.50, £2.00 conc. TIC GU Online GU Campus

How The Koala Learnt To Hug | Tues 1 June 2.00pm
£5 TIC SEE GU Online GU Campus

Take That 2 | Thurs 24 June 8.00pm
£10.00, £8.00 conc. TIC SEE GU Online GU Campus

Key: TIC - Tourist Information Centre SEE - SEE Tickets GU - glyndwr.ac.uk GU - University campus

BOX OFFICE: **01978 292015**
at **Glyndŵr University**, Wrexham

free admission to oriel sycharth gallery

the ART of function
Wednesday 28 April - Thursday 9 September 2010

This exhibition brings together artists who have individually or through collaboration questioned or alluded to the functional in art.

They are **Corinne Felgate, Jahne Malmos, Bruce McLean, Will McLean, Meg Shiryama, Estelle Thompson, John Walter, Gary Woodley, Ichia Wu** and **Toby Zeigler**.

Wednesday 28 April Talk 5-7pm Private viewing and drinks reception.
Tel: 01978 293306 to reserve your space.

The Scyharth Gallery is open Mon - Fri 9.00am - 4.30pm.

oriel sycharth gallery

glyndŵr
PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM
GLYNDŴR UNIVERSITY WREXHAM

www.glyndwr.ac.uk/events

Wrexham Arts Welsh 2010_2.indd 10-11 29/3/10 16:19:14

Mannau Sanctaidd

Arddangosfa Ffotograffiaeth Mannau Sanctaidd – Mynwentydd Eglwys yn Wrecsam ac Ewrop

Arddangosfa yw hon o ffotograffau sy'n tynnu sylw arbennig at amrywiaeth y bywyd gwyllt a hanes sydd i'w cael mewn tair ar ddeg o fynwentydd eglwys cefn gwlad Wrecsam sy'n rhan o'r prosiect Mannau Sanctaidd.

Mae llawer o fynwentydd eglwys yn cynnwys nifer sylweddol o goed yw a bydd yr arddangosfa'n cynnwys ffotograffau o yw rhyfeddol sydd i'w cael yn Ewrop. Tynnwyd rhai o'r ffotograffau gan Fred Hageneder, arbenigwr Almaenig ac awdur amryw lyfrau ynghylch coed yw - ac sydd hefyd yn canu telyn yw.

Mae'r arddangosfa am ddim ac mae i'w gweld yn ystod oriau agor yr eglwysi rhwng 10.00 am a 4.00pm bob dydd (heblaw yn ystod gwasanaethau) yn y mannau isod:

1af - 11eg Mai
Yn Eglwys y Santes Fair, Y Waun
12fed - 21ain Mai
Yn Eglwys yr Holl Saint, Gresffordd
22ain - 23ain Mai
yn Eglwys Sant Pawl, Is-y-coed
25ain Mai - 4ydd Mehefin
Yn Eglwys Sant Chad, Hanmer.

Gogledd Gororau Cymru sy'n gyfrifol am y prosiect Mannau Sanctaidd sy'n un o lawer o brosiectau Ewropeaidd y bu'n ymwneud ag ef dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Derbyniodd y prosiect gyllid trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

I gael rhagor o wybodaeth:
Ffoniwch: 01978 298386 neu e-bostio:
sacred-space@hotmail.co.uk

Wrexham Arts Welsh 2010_2.indd 12 29/3/10 16:19:14